

## Adroddiad Blynyddol 2019-20

### **Rhagair**

Mae blwyddyn adrodd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhedeg o fis Gorffennaf hyd at fis Mehefin. Mae'r cyfnod o fis Chwefror i fis Mehefin 2020 wedi gweld digwyddiadau eithriadol sydd wedi effeithio arnom yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang, ac mae'r digwyddiadau wedi rhoi baich enfawr ar ein cymunedau, ein gwasanaethau cyhoeddus, yr economi ac iechyd a llesiant ein trigolion.

Rydym yn byw mewn cyfnod digynsail, gan ddechrau gyda'r digwyddiadau llifogydd a ddifethodd lawer o'n cymunedau yn y Cymoedd, a ddilynwyd yn fuan gan y pandemig COVID-19 a'r effaith enfawr y mae hyn wedi'i chael, ac y mae'n parhau i'w chael. Gyda'r angen am gamau gweithredu ac ymateb brys gan ein gwasanaethau cyhoeddus, cytunodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf y byddai Adroddiad Blynyddol 2019-20 yn darparu crynodeb byr o'i waith a'i gynnydd dros y flwyddyn, yn enwedig yn ystod y chwe mis cyntaf, ond bydd yn ymatal rhag gosod y camau nesaf a gynlluniwyd gennym, a chynnwys hynny mewn adroddiad hwyrach, er mwyn rhoi cyfle a lle i fyfyrwyr ar yr effaith y mae'r misoedd diwethaf wedi'i chael ar ein cymunedau, a'r hyn sydd angen ei newid er mwyn delio â'r 'normal newydd'.

Yng Nghwm Taf, rydym yn ystyried bod hyn yn gyfle i ail-edrych ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ag egni o'r newydd, ac rydym yn edrych ymlaen at y posibilrwydd o weithio gyda'n cymunedau i harneisio'r gwydnwch a'r cryfderau a ddangoswyd ganddynt yn ddiweddar.

### **Pwyso a mesur y flwyddyn aeth heibio**

Mae'n ddwy flynedd ers i ni gyhoeddi Cynllun Llesiant Cwm Taf, a oedd yn nodi ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau ar gyfer Cwm Taf – yr hyn gwnaethoch ddweud fyddai'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'ch bywydau; cael cymunedau ffyniannus, pobl iach, economi gref a Chwm Taf lle nad yw unrhyw un yn teimlo'n unig nac yn ynysig.

Mae'r ail flwyddyn wedi ymwneud â pharhau â llwyddiannau ein blwyddyn gyntaf ac adeiladu arnynt, yn ogystal ag ymgorffori a defnyddio'r hyn rydym wedi'i ddysgu. Rydym yn dal i ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar asedau, sy'n golygu ein bod yn edrych ar yr hyn sy'n gweithio'n dda yng Nghwm Taf, yr hyn y mae pobl yn falch ohono a'r hyn y gallwn ei wneud i gryfhau a datblygu'r rhain ymhellach.

Rydym wedi treulio amser yn gosod strwythurau a phrosesau ar waith yn 2018-19 er mwyn cyflwyno gwelliannau, ond eleni rydym wedi rhoi llawer mwy o ffocws ar herio ein hunain ynghylch dau gwestiwn:

- Sut ydym yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol o fewn ein cymunedau?
- A yw ein mecanweithiau ar gyfer cyflawni yn iawn, ac a ydyn nhw'n gweithio?

Yn ogystal â gweithio er mwyn cyflawni'r pedwar amcan a nodir yn y Cynllun Llesiant, rydym hefyd wedi cynnal 'Labordy Byw' gyda Chomisiynydd Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol ynghylch mynd i'r afael ag effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) a'i lliniaru, ac archwilio sut y gallwn gydweithio ac integreiddio â phartneriaethau eraill sy'n gweithio yng Nghwm Taf Morgannwg (CTM), yn arbennig y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr. Mae hyn hefyd yn ail-gadarnhau ein hymrwymiad tuag at agenda ataliol gadarn. Mae rhai o'r uchafbwyntiau o ran yr hyn rydym wedi'i wneud, a sut rydym wedi'i wneud, i'w gweld yn y tudalennau dilynol - ac rydym yn croesawu eich adborth ar hyn.

## Uchafbwyntiau cyflawniadau yn erbyn ein hamcanion

### Cymunedau ffyniannus

Fe wnaethom ddweud y byddem yn: *'Hyrwyddo cymunedau diogel, hyderus, cryf a ffyniannus, gwella lles trigolion ac ymwelwyr ac adeiladu ar ein hasedau cymunedol'*.

I gyflawni hyn, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Lansio a chefnogi'r ddaau Hwb cychwynnol: [Calon Las](#) yn y Gurnos, a [Hwb Glynrhedynog](#) yng Nglynrhedynog. Mae gwaith datblygu pellach yn cael ei wneud yng Nghalon Las er mwyn cynnwys siop goffi.
- Cyflwyno'r model, sydd wedi'i gydlynu gan grŵp strategol rhanbarthol, er mwyn ehangu'r rhwydwaith. Mae timau lleol bellach yn arwain y gwaith o gyflenwi ar gyfer pob parth gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cadw goruchwyliaeth.
- Mae rhwydweithiau cymdogaeth yn parhau i ffynnu, ac maen nhw'n ffordd o gynnwys y gymuned yn yr Hwb a sut maen nhw'n datblygu. Mae'r rolau'r cydlynwyr cymunedol a gyflawnir gan Susan Jones a Louise Clement yn helpu i adeiladu a chryfhau rhwydweithiau presennol a gwella mynediad at wasanaethau, a hyrwyddo'r hybiau o fewn yr ardal. Mae'r gwaith hwn wedi ein galluogi i weithio tuag at rai o'r 'Newidiadau Syml' a nodwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, megis galluogi pobl leol i wella lleoedd nad ydynt yn derbyn llawer o sylw; gan alluogi pobl leol i ddod at ei gilydd mewn cymunedau i gwrdd a chreu rhwydweithiau cymdeithasol a gwneud y mwyaf o'n gwaith gyda sefydliadau sy'n angor i'r gymuned.

### Pobl iach

Fe wnaethom ddweud y byddem yn: *'Helpu pobl i fyw bywydau hir ac iach a goresgyn unrhyw heriau'*.

I gyflawni hyn, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Gwneud cynnydd wrth ddatblygu 'proffil agored i niwed' yng Nghwm Taf fel y gallwn nodi a helpu teuluoedd bregus cyn iddynt gyrraedd sefyllfa argyfyngus. Cefnogwyd hyn trwy gomisiynu dau gorff; 'SAIL' i gynnal rhywfaint o waith dadansoddi ar ein rhan ac 'Insight' i ymchwilio i'r buddion a'r teimladau ymysg rhanddeiliaid gwahanol ynghylch rhannu data er mwyn nodi menywod beichiog, plant a theuluoedd ifanc sy'n agored i ganlyniadau gwael.
- Sefydlu gwasanaeth newydd ar gyfer menywod sy'n agored i niwed sy'n wynebu'r risg o feichiogrwydd heb ei gynllunio dro ar ôl tro. Bydd y gwasanaeth hwn yn darparu gweithwyr iechyd rhywiol allgymorth o fewn ardaloedd penodol i chwalu'r rhwystrau rhag ymgysylltu a chynnig cyngor iechyd rhywiol i fenywod yn eu cymunedau eu hunain

## Economi Gref

Fe wnaethom ddweud y byddem yn: *'Sbarduno a hybu dyheadau a sgiliau ein pobl er mwyn bodloni cyfleoedd gyrfa'r sector cyhoeddus a phreifat'*.

I gyflawni hyn, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Lansio'r 'Adduned Cyflogadwyedd' ym mis Chwefror 2020. Mae hyn yn ymrwymo'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac aelod-sefydliadau i ddatblygu a rhannu arfer gorau o ran gwella llwybrau at gyflogaeth, cyfleoedd i ddatblygu o fewn ein gweithluoedd, gwirfoddoli a phrofiad gwaith. Mae elfennau o'r adduned wedi ein galluogi i gymryd camau tuag at ddod yn gyflogwyr Cyflog Byw gyda'n gilydd a gwneud y mwyaf o'r potensial ar gyfer cael prentisiaethau o fewn ein sefydliadau, ac mae'r ddau beth yn 'Newidiadau Syml'.
- Dechreuon ni weithio gydag ysgolion a cholegau er mwyn gweld beth sydd o ddiddordeb i'n pobl ifanc. Yn gysylltiedig ag agenda profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs), rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar gynyddu dyheadau a gwnaethom gynnal diwrnod 'Rhowch gynnig arni' gyda Choleg Merthyr Tudful a disgyblion Blwyddyn 8 o Ysgol Uwchradd Pen y Dre a gafodd gyfle i roi cynnig ar gyfarpar rhyngweithiol gwahanol o ystod o sectorau, a chael cyfle i edrych o gwmpas y coleg a gweld yr hyn sydd ganddo i'w gynnig. Mae gwaith peilot yn mynd rhagddo gyda myfyriwr Teithio a Thwristiaeth yn yr ail flwyddyn ym Mhrifysgol De Cymru i ddatblygu rhaglen waith dysgu seiliedig ar waith 10 wythnos gyda'r awdurdod lleol a busnesau lleol. Os bydd y gwaith yn llwyddiannus, bydd yn cael ei gyflwyno'n ehangach.
- Gwnaethom lwyddo i wneud cais i Gronfa Her yr Economi Sylfaenol er mwyn helpu i sicrhau bod eiddo masnachol gwag o amgylch Merthyr yn cael ei ddefnyddio unwaith yn rhagor. Yn 2020/21 byddwn yn parhau i edrych ar yr economi sylfaenol, neu'r economi leol, fel dull ychwanegol o ddatblygu cymunedol.

## Mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd

Gwnaethom ddweud: *"Byddwn yn gweithio mewn ffyrdd newydd i sianelu cryfderau'n cymunedau, gan gynnwys gwirfoddoli, i fynd i'r afael yn fwy effeithiol â'r unigrwydd ac ynysigrwydd sy'n aml yn bodoli o fewn llawer ohonynt."*

I gyflawni hyn, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Parhau i ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd yn yr adolygiad a gynhaliwyd yn 2019/20 i weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â heriau a nodi a hyrwyddo'r ffactorau llwyddiant hanfodol a allai weithio'n lleol, yn arbennig o ran rhagnodi cymdeithasol, ymgyfeillio a datblygu asedau cymunedol.
- Rhagnodi cymdeithasol yw un o'r meysydd allweddol rydym yn ei weithredu fel Cwm Taf Morgannwg a'r partneriaethau sy'n gweithredu yn yr ardal. Mae dealltwriaeth a gwybodaeth a rennir am ddarpariaeth yn cael ei fapio gan weithgor rhanbarthol a fydd hefyd yn gosod strategaeth.
- Defnyddio arian gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gyflogi 'swyddog datblygu unigrwydd ac ynysigrwydd'. Ers mis Hydref 2019, mae Ryan Bevan wedi bod yn gweithio er mwyn cefnogi a datblygu grwpiau lleol sy'n gweithio ar yr agenda hon.
- Cefnogi gwasanaeth cyfeillio yn fwy cynaliadwy fel nad yw'r gwasanaethau y mae pobl eu hangen ac yn eu defnyddio, mewn perygl. Cafodd rhwydwaith cyfeillio gyfarfod rhagarweiniol ym mis Ionawr, ac argymhellodd fod y rhanbarth yn sefydlu Strategaeth

Ataliol i fynd i'r afael ag anghenion, nid ar gyfer y presennol yn unig ond i helpu i baratoi ar gyfer y dyfodol.

- Gofynnwyd i ni arwain gweithdy ar y modd rydym yn gweithio i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol trwy strategaethau llesiant a gwasanaethau cydgysylltiedig yn nigwyddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar y pwnc. Bu'n rhaid gohirio'r digwyddiad hwn o ganlyniad i'r argyfwng COVID-19.

## **Meysydd gwaith allweddol eraill ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2019-20**

### **LABORDY BYW**

Gyda chymorth a chefnogaeth Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol, gwnaethom dreulio amser dros chwe mis cyntaf eleni, yn ymchwilio i faes profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Gwnaethom ganolbwyntio ar y systemau sydd gan bob gwasanaeth cyhoeddus ar waith i fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, a gwnaethom dynnu sylw at rai o'r materion a'r heriau systemig y mae gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu wrth ddelio â materion cymhleth, megis profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Roedd hon yn broses anodd ac emosiynol, ac amlygodd rai o'r rhwystrau sy'n ein hwynebu wrth ddelio ag achosion cymhleth ar lefel amlasiantaethol. Roedd rhai o'r materion hyn yn cynnwys diffyg cyfranogiad gan y teulu neu'r gymuned wrth fynd i'r afael ag effeithiau ehangach profiadau niweidiol yn ystod plentyndod; asiantaethau yn teimlo bod angen iddynt 'achub' teuluoedd, yn hytrach na'u galluogi; mae gwasanaethau allweddol yn aml yn canolbwyntio ar fesur pethau nad ydyn nhw'n cael yr effaith fwyaf ar deuluoedd, sy'n golygu nad oes newid cadarnhaol yn digwydd. Un o'r ffactorau allweddol a nodwyd oedd bod angen darparu cydberthnasau ac amgylcheddau diogel, sefydlog, sy'n meithrin er mwyn lliniaru effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Gyda'r canfyddiadau hyn mewn golwg, gwnaethom ddechrau edrych ar gyfranogiad cymunedau wrth nodi a diffinio drostynt eu hunain yr hyn sy'n amgylcheddau a chydberthnasau diogel, sefydlog, sy'n meithrin. Gwnaeth hyn arwain at grŵp gorchwyl a gorffen yn argymhell ein bod yn treialu'r dull datblygu cymunedol hwn mewn cymuned a nodwyd, lle mae darparwyr gwasanaeth ac aelodau o'r gymuned a'r teulu yn penderfynu ar gamau gweithredu mewn modd cyfartal a gyda'i gilydd er mwyn symud ymlaen. Cafwyd hefyd argymhellion i'r gwasanaethau cyhoeddus eu treialu mewn perthynas â newid diwylliant sefydliadau o fewn rhai o'n gwasanaethau allweddol.

Mae'r gwaith hwn wedi dod i ben yn ystod y tri mis diwethaf o ganlyniad i COVID-19, ond mae'r ymrwymiad i yrru hyn ymlaen yn dal i fod yn ganolog i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

### **Gweithio rhanbarthol**

Rydym wedi bod yn gweithio fwyfwy ar ôl troed rhanbarthol, o feysydd gwaith a rennir ar bynciau fel 'rhagnodi cymdeithasol' i gael gweithgor sy'n archwilio opsiynau gweithredol er mwyn i'r byrddau allu dod at ei gilydd yn ffurfiol, gan arwain at Gynhadledd Partneriaeth Strategol ar y Cyd Cwm Taf Morgannwg a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2020. Daeth aelodau o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr a Chwm Taf, a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg ynghyd i drafod trefniadau gweithio yn y dyfodol a chyfleoedd i integreiddio a chydweithio. Mae'r byrddau'n gwybod bod angen i'r 'materion mawr' gael yr ymrwymiad mwyaf i newid, y defnydd gorau o adnoddau ar y cyd a'r risg leiaf o ddyblygu ymdrechion.

Ers hynny, cafwyd trafodaethau parhaus ynglŷn â gweithredu newidiadau, adolygu sut y gellir integreiddio'r mecanweithiau i gyflenwi ar gyfer pob bwrdd ac archwilio cyfleoedd i gydweithio, gan osod strategaeth yn rhanbarthol y gellir ei gweithredu a'i dylunio ar gyfer diwallu anghenion lleol.

Yn gynyddol, rydym yn cydnabod nad ydym yn gwybod yr atebion nac yn meddu ar y datrysiadau i'r problemau hyn a dim ond trwy weithio gyda'n cymunedau y gallwn ddeall a mynd i'r afael â'r heriau rydym i gyd yn eu hwynebu, ac ni fu hyn erioed yn bwysicach.

### **Rhoi cynnig ar amrywiaeth o ddulliau**

Mae'r cymunedau sy'n rhan o Gwm Taf yn wahanol iawn, ac rydym yn dysgu nad oes un ffordd benodol o ran sut i weithio gyda'n cymunedau a'u cynnwys ond rydym yn cymryd camau i roi cynnig ar amrywiaeth o ddulliau gwahanol. Bydd ein Hadroddiad Blynyddol llawn yn cynnwys astudiaethau achos fel enghreifftiau o sut rydym yn gwneud hyn.

## Gwydnwch

Y llynedd, gwnaethom ddweud ein bod yn hyderus y byddem yn gweld 'newid' yn ystod yr ail flwyddyn o gael ein gyrru gan broses i fod yn ddewr, gan archwilio ffyrdd newydd a gwahanol o wella llesiant a defnyddio'r ffyrdd o weithio i greu cymunedau ffyniannus o bobl iach, sy'n mwynhau economi gref. Rydym wedi cymryd camau tuag at gyflawni hyn, yn arbennig wrth feddwl am sut rydym yn cynnwys ein dinasyddion ac yn cynnal gwaith datblygu cymunedol ond mae gennym lawer o waith i'w wneud eto.

Rydym yn dal i ddysgu; mae'r Bwrdd yn aeddfedu ac mae'n fwy parod i gael ei herio ond mae am fod yn fwy arloesol o ran y ffordd y mae'n gweithio. Rydym am wella sut rydym yn cynnwys ein dinasyddion yn y ffordd rydym yn gweithio a sicrhau bod pawb yn teimlo ein bod yn gwrando arnyn nhw.

Mae gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n trigolion yn parhau i fod yn gymhellant i ni, ac mae'r cymhellant hwn yn ystyried tueddiadau ac ansicrwydd newidiol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd newidiadau i ffiniau'r bwrdd iechyd ac 'uned reoli sylfaenol' yr Heddlu i gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, ac mae hyn wedi sicrhau bod ein meddylfryd yn canolbwyntio ar ôl troed Cwm Taf Morgannwg sy'n fwy rhanbarthol. Mae hyn hefyd yn cyflwyno nifer o gyfleoedd ar gyfer cydweithredu a dysgu.

Rydym hefyd yn parhau i gydnabod mai un corff yn unig yw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n gweithio i wella llesiant yng Nghwm Taf. Mae amrywiaeth eang o sefydliadau ar lawr gwlad a sefydliadau cymunedol ledled Cwm Taf yn gwneud gwaith anhygoel, yn gwbl seiliedig ar ddiwallu anghenion lleol. Mae'r partneriaid unigol hefyd yn gweithio yn eu rhinwedd eu hunain yn yr ardaloedd maent yn gyfrifol amdanynt.

Mae hanner olaf blwyddyn 2019-20 wedi bod yn heriol iawn i'n cymunedau ond cafwyd nifer o enghreifftiau rhagorol o gydlyniant cymunedol; gyda chymunedau yn ymateb ac yn gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i ddatrysiadau i sicrhau bod y rhai hynny sydd fwyaf agored i niwed yn derbyn yr hyn sydd ei angen arnynt. Mae gennym ddiddordeb mewn ymchwilio i sut allwn ni gefnogi'r gwaith hwn, gweithio gyda'r grwpiau hyn a dileu rhwystrau rhag datblygu gallu cymunedol yn y modd hwn.

Bydd fersiwn lawn o'n Hadroddiad Blyneddol yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn y flwyddyn gyda mwy o enghreifftiau o sut rydym wedi bod yn gweithio a'r hyn rydym wedi'i gyflawni. Pan fydd modd, byddwn hefyd yn dechrau paratoi ar gyfer ein hasesiad llesiant nesaf, rhywbeth yr ydym yn bwriadu ei gynnal mewn cydweithrediad â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr, felly byddwn yn ceisio cynnwys ein cymunedau o fewn y gwaith hwnnw hefyd gan y bydd yn helpu i lywio ein dealltwriaeth a'n blaenoriaethau o 2023 ymlaen.

Am fwy o wybodaeth am sut allwch chi gymryd rhan a rhoi eich barn ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac i roi adborth, ewch i [www.eincwmtaf.cymru](http://www.eincwmtaf.cymru)